Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael mewn testun mawr a fformatau eraill ar gais.

# GWEITHDREFN CWYNO I GYFLOGEION

## CYFLWYNIAD

Mae'r Weithdrefn Gwyno wedi’i datblygu rhwng Cyngor Bro Morgannwg ac Undebau Llafur cydnabyddedig. Bydd y weithdrefn hon yn berthnasol i’r holl gyflogeion heblaw am staff mewn ysgolion a staff ategol a chyflogeion ar amodau cysylltiedig JNC ar gyfer y Prif Swyddog a’r Prif Weithredwr.

Diben y weithdrefn yw sicrhau bod gan gyflogeion sydd â chwyn am eu cyflogaeth fframwaith clir er mwyn ymdrin â’r gwyn honno. Mae’r weithdrefn wedi’i chreu i adlewyrchu’r egwyddorion canlynol-

1. Mae gan gyflogeion sydd â chwyn am eu cyflogaeth hawl i godi cwyn ac i’r gŵyn honno gael ei chlywed.

2. Pan fo’n bosibl, dylid ymdrin â chwynion yng nghyfnodau cynnar y weithdrefn.

## EITHRIADAU

Nid yw’r weithdrefn hon yn berthnasol i Aelodau Etholedig, Prif Swyddogion a’r Prif Weithredwr, staff Addysgu a chyflogeion mewn ysgolion a reolir yn lleol y mae gweithdrefnau ar wahân ar eu cyfer.

Ni ellir ystyried y materion canlynol dan y weithdrefn hon:-

- materion ac apeliadau disgyblu
- materion yn ymwneud â Threth Incwm, Yswiriant Gwladol neu ddidyniadau statudol eraill o dâl
- apeliadau yn erbyn graddio
- Heb gael dethol ar gyfer penodiad [ar yr amod bod trefniadau protocol ar wahân]

## CYFYNGIADAU AMSER

Gall y partïon y mae’r gŵyn yn berthnasol iddynt, ar achlysuron a thrwy gytuno ar y cyd yn unig, addasu'r cyfyngiadau amser y cyfeirir atynt yn y weithdrefn hon.

AU/LDMan Team Jan02 –Cabinet 5/2/02
JCF 11/2/02 –Policy 28/2/02, amended 0708/07 to clarify may be accompanied by Trade Union Representative or work colleague, Council 26/06/13 new appeals process implemented 27/06/13, Medium of Welsh or English page 1 23/03/16.

Os nad ymdrinnir â chwyn oddi mewn i'r cyfyngiadau amser a nodir yn y weithdrefn hon, neu oddi mewn i'r cyfyngiadau amser wedi'u hymestyn y cytunwyd arnynt ar y cyd, bydd hawl gan y cyflogai i symud at gam nesaf y weithdrefn.

Diwrnodau gwaith yw'r holl gyfyngiadau amser y cyfeirir atynt yn y weithdrefn ac nid ydynt yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus na gwyliau statudol ychwanegol.

**Y WEITHDREFN**

**Cam Anffurfiol**

Dylai unrhyw gyflogai sydd wedi cael cam o ran unrhyw fater a drafodir yn y weithdrefn hon drafod y mater yn gyntaf gyda'i Oruchwylydd/Rheolwr [os mai'r Goruchwylydd yw'r troseddwr honedig, dylid trafod y mater gyda Goruchwylydd/Rheolwr Llinell y troseddwr].

Dylai'r Goruchwylydd geisio datrys y gŵyn yn anffurfiol a rhoi gwybod i'r cyflogai cyn gynted â phosibl ac mewn unrhyw ddigwyddiad ymhen 2 diwrnod gwaith.

**Cam 1**

Dylai cyflogai nad yw'n fodlon ar yr ymateb llafar fynd at ei Gynrychiolydd undeb llafur/cydweithiwr os nad yw eisoes wedi gwneud hynny a threfnu i gyflwyno'r gŵyn i'r Goruchwylydd/Rheolwr agosaf yn ffurfiol yn ysgrifenedig [y wybodaeth i gynnwys manylion llawn y digwyddiad, tystion, dyddiadau ac ati;].

Rhaid i'r cyflwyniad ysgrifenedig hefyd fanylu ar natur y gŵyn a rhaid iddo nodi'r camau yr hoffai'r cyflogai i'r Awdurdod eu cymryd i ddatrys y gŵyn. Dylai'r cyflogai gadw copi o'r cyflwyniad.

Dylai'r Goruchwylydd/Rheolwr Llinell gwrdd â'r cyflogai a'i gynrychiolydd ymhen pum diwrnod gwaith ac ymateb i'r gŵyn yn ysgrifenedig ymhen pum diwrnod gwaith o'r cyfarfod hwnnw.

**Cam 2**

Os nad yw'r cyflogai yn fodlon ar yr ymateb o hyd, dylai gyfeirio'r mater at y Prif Swyddog ymhen pum diwrnod gwaith o gael ei gynghori'n ffurfiol. Dylai'r Prif Swyddog ymateb trwy drefnu gwrandawiad cwyno lle gall cyflogai gael ei gynrychioli gan Gynrychiolydd Undeb Llafur neu gydweithiwr ymhen 10 diwrnod gwaith. Dylid cynnal y gwrandawiad a dylid cadarnhau'r canlyniad yn ysgrifenedig i'r holl bartïon [gan roi crynodeb yn unig i'r atebwr] ymhen 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cyfeiriad o'r cam cyntaf.

**Cam 3**

Os nad yw'r cyflogai yn fodlon ar yr ymateb ar ôl Cam 2 o hyd, dylid rhoi gwybod yn ysgrifenedig i Bennaeth Adnoddau Dynol ymhen 5 diwrnod gwaith o dderbyn ymateb Cam 2. Bydd Pennaeth Adnoddau Dynol yn trefnu i Banel Apeliadau gwrdd i ystyried y gŵyn ymhen 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn bwndel y cyflogai.

Bydd hawl gan y cyflogai a'i Gynrychiolydd Undeb Llafur neu'i gydweithiwr i fynychu a chynrychioli'r cyflogai/cyflogeion yn y Panel Apeliadau.

Penderfyniad y Panel Apeliadau fydd cam olaf y broses a rhoddir gwybod i'r cyflogai amdano pan fo'n bosibl ar ddiwedd ystyried yr Apêl a/neu ei gadarnhau'n ysgrifenedig ymhen 5 diwrnod gwaith o'r Apêl.